

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Community Council

Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd
nos Lun 27 Gorffennaf 2026 am 7.30 p.m. yn Neuadd Goffa Tal-y-bont

1. Croeso'r Cadeirydd

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Enoc Jenkins (Cadeirydd), Ellen ap Gwynn, Bleddyn Huws, Eryl Bray, Nia Richards, Siôn Pennant Jones (Is-gadeirydd), Catrin Davies (Cyngorydd Sir), Mererid Watson (o bell) a Rhian Evans

Yn cofnodi: Lynwen Rees Jones

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb.

2. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr Nest Jenkins ac Elgan Evans

3. Datgan Buddiant Personol

Datganodd y Cyng. Nia Richards fuddiant mewn perthynas â **5. ii)**, Mynwent Nazareth.

Datganodd y Cyng. Catrin Davies, Bleddyn Huws a Mererid Watson fuddiant mewn perthynas â **9. ii)**, taliad i Neuadd Goffa Tal-y-bont.

4. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf

- i) Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2026, yn gywir. Cynnig: Ellen ap Gwynn; Eilio: Bleddyn Huws

5. Materion yn codi

- i) Materion a adroddwyd trwy Clic i'r Cyngor Sir: roedd y Cyngor Sir wedi rhoi gwybod bod popeth a adroddwyd trwy Clic bellach ar restr aros a bod y gwaith yn dibynnu ar ddyrannu'r cyllid sydd ar gael.
- ii) Mynwent Nazareth: (*Datganodd y Cyng. Nia Richards fuddiant yn y mater hwn.*) Trafodwyd llythyr diweddaraf y cyfreithiwr a oedd yn esbonio'r ymholiadau a wnaed. Nid oedd yna gyfeiriad at gofnodion y fynwent. Nodwyd bod y dogfennau perthnasol, o bosibl, yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac y byddai angen i'r Cyngor Cymuned gael gafael arnynt. Nodwyd ymhellach na fyddai'r trosglwyddiad yn gyflawn heb y dogfennau. Trafodwyd y posiblirwydd o gau'r fynwent wedi iddi gael ei throsglwyddo, gan ganiatáu claddedigaethau mewn beddi sy'n bodoli yn unig. Nododd y Cyng. Nia Richards fod yr arian sydd yng nghyfrif Capel Nazareth yn cael ei drosglwyddo i Henaduriaeth Gogledd Ceredigion. Cynigiodd y Cyng. Ellen ap Gwynn symud ymlaen â'r trosglwyddiad a derbyn yr £20,000 a gynigir. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Eryl Bray, a chytunwyd yn unfrydol. Byddai angen rhoi gwybod i'r cyfreithiwr a threfnu dyddiad i lofnodi'r dogfennau.
- iii) Penodi Archwilydd Mewnol: ar ôl cael esboniad o hyd a lled y gwaith, roedd Mr Euryon Jones wedi cytuno i fod yn Archwilydd Mewnol i'r Cyngor, a chymeradwywyd hyn yn unfrydol.
- iv) Cyfarfod â Rhodri Llwyd – nid oedd y Clerc wedi cael ymateb.

6. Adran 6 – Bioamrywiaeth

- i) Nododd y Cyng. Eryl Bray y byddai ffilm ar yr argyfwng hinsawdd yn cael ei dangos yn y Neuadd Goffa ar 9 Tachwedd am 7.30pm, gyda thrafodaeth i ddilyn.
- ii) Nododd y Cyng. Nia Richards fod gwahoddiad wedi dod i ysgrifennu erthygl 'Yn Naturiol' am fywyd gwyllt lleol ar gyfer *Papur Pawb*.
- iii) Nododd y Cyng. Catrin Davies fod Coed Cymru yn bwriadu cynnal sesiynau ar adnabod coed – rhagor o fanylion i ddilyn.

7. Gohebiaeth

Roedd y Clerc wedi anfon pob gohebiaeth electronig berthnasol ymlaen at y Cyngorwyr yn ystod y mis. Nodwyd y canlynol yn benodol:

- i) Hysbysiad cau ffordd C1091 ger Dol-y-bont am 24 awr ar 14 Awst ar gyfer gwaith polion gan Openreach.
- ii) Y Cyngor Sir yn holi am leoliadau mewn argyfwng. Nodwyd fod CSC mewn cysylltiad â'r Neuadd Goffa eisoes ac nad oedd gan y Cyngor unrhyw eiddo i'w gynnig. Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith nad oedd yna lain rhwystro tân (*fire break*) yng Nghoed Allt-y-crib i atal tân gwyllt rhag cyrraedd eiddo ar hyd Tan Coed a Maes-y-Felin. Penderfynwyd anfon gohebiaeth at Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi hyn a'r ffaith nad oes unrhyw waith cynnal a chadw wedi cael ei wneud yn y goedwig ers amser maith.

8. Materion ariannol:

- i) Adroddiad ariannol: roedd y Clerc wedi dosbarthu manylion sefyllfa ariannol y Cyngor ymlaen llaw; roedd y sefyllfa ar 27.07.2026 fel a ganlyn:

Y cyfrif cyfredol	£392.99
Y cyfrif cadw	£3,036.67
Cyfrif Cae Bach	£30,456.38
Cyfrif y Tabernacl	£4,668.56
Arian mân	£143.29
Cyfanswm	<u>£38,697.89</u>

- ii) Incwm ers y cyfarfod diwethaf:
Llog banc – £38.87
- iii) Anfonebau i'w talu:
 - a) Neuadd Goffa Tal-y-bont, llogi ystafell Ebrill-Gorff – £255.00
 - b) Nia Richards, costau Cwtsh Cynnes – £3.50
 - c) Robert Griffiths, torri glaswellt/gwrychoedd – (£2,580 + TAW) = £3,096Penderfynwyd yn unfrydol gymeradwyo'r taliadau uchod.

9. Y Caeau Chwarae

- i) Ymgyrch Cae Bach: roedd y cais am grant y Loteri wedi bod yn llwyddiannus, gyda £98,000 wedi cael ei ddyrannu i'r gronfa. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod mis Awst ag un o swyddogion y Loteri i fanylu ar y trefniadau. Roedd y cyfarpar wedi cael ei archebu gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith o'i osod erbyn diwedd mis Hydref. Nodwyd y byddai'r Clwb 200 yn cael ei gynnal unwaith eto yn 2026-27. Byddai hefyd angen dychwelyd ffurflen flynyddol i'r Cyngor Sir yn nodi manylion incwm Clwb 200 2025-26.
- ii) Adroddiadau misol: dim byd newydd i'w adrodd.

10. Unrhyw Fater Arall

- i) Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd yna arwydd ar Lwybr Mai. Nodwyd bod cystadleuaeth wedi cael ei chynnal ar y cyd â Chyngor Llangynfelyn i ddewis logo addas, a fyddai'n cael ei gynnwys ar arwyddion ar ddau ben y llwybr maes o law.
- ii) Roedd y sietyn ar hyd y palmant gyferbyn â'r safle bws ym mhen uchaf Tal-y-bont wedi cael ei thocio.
- iii) Roedd cwynion wedi dod i law ynglŷn â sietyn ar hyd Tan Coed a oedd yn tyfu i'r ffordd ac yn atal y lori lwch rhag mynd heibio.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Community Council

- iv) Nodwyd bod tipyn o ddeunydd wedi cwmpo i mewn i'r Cae Bach ar hyd y ffin â darn o dir ar hyd Tan Coed. Byddai'n rhaid i hyn gael ei glirio ac i'r ffin gael ei gwneud yn ddiogel. Penderfynwyd cysylltu â'r perchennog.

11. Dewis enillwyr y Clwb 200

Defnyddiwyd ap cynhyrchu haprifau i ddewis enillwyr olaf y flwyddyn, fel a ganlyn:

1^{af} – 70 Magw Ifan (£50); 2^{il} – 15, Sioned Morris (£20); 3^{edd} – 5, Ruth Jên (£10)

Cymeradwywyd talu'r gwobrau o gronfa Cae Bach.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 p.m. ar 28 Medi 2026 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 p.m.